Gwasanaeth Cymorth I Addysg Grefyddol yn y Cynradd

a

Books @ Press

# Deunyddiau Cefnogi
# Addysg Ddiwylliannol ac Addysg Grefyddol

## Awgrymiadau am Weithgareddau yn gysylltiedig â Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen

**Cwricwlwm 2008 Cymru**

**Gill Vaisey, Ymgynghorydd Addysg Grefyddol**

# *Books @ Press*

# Adnoddau

Datblygwyd adnoddau *Books @ Press* yn benodol i gefnogi athrawon wrth iddynt ymgymryd ag addysg ddiwylliannol ac addysg grefyddol gyda disgyblion yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r storiau yn cynnig y sylfaen i addysg ddiwylliannol ac addysg grefyddol ynghyd â'r cyfle i archwilio ystod eang o weithgareddau traws-gwricwlaidd gan hyrwyddo cwricwlwm integredig llawn ar gyfer yr oed hwn.

Gellir gweld manylion llawn am yr adnoddau ar www.booksatpress.co.uk neu ffoniwch 01594 516490.

**Yr Awdur:** Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sy'n arbenigo yn y cyfnodau addysg cynradd a'r blynyddoedd cynnar yw Gill Vaisey. Ar ôl astudio am ei gradd Baglor mewn Addysg, gydag Astudiaethau Crefyddol fel ei phwnc arbenigol, bu'n dysgu disgyblion oed cynradd cyn ymgymryd â swydd fel Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol yng Ngwent. Ers 1996, bu Gill yn ymgynghorydd annibynnol llwyddiannus sy'n cynnig cefnogaeth a hyfforddiant i ysgolion ac fe ddatblygodd angerdd at addysg yn y blynyddoedd cynnar drwy ei gwaith diweddaraf gyda'r oed hwn.

**Y Darlunydd:** Gweinyddes Feithrin a fu'n gweithio o fewn amgylchedd ysgolion am ddeng mlynedd yw Louise Gwillym.Trwy weithio gyda phlant oed cynradd, datblygodd Louise ei harddull arbennig ei hun o arlunio sy'n ennyn diddordeb ac yn cydio yn nychymyg plant o bob oed, yn arbennig y rhai hynny sydd yng nghyfnod cynnar eu haddysg.

**Athrawes-Ymgynghorydd**: Gweithredodd Melissa Griffiths fel ein prif athrawes-ymgyngorydd a'n golygydd a bu ei chyngor a'i harbenigedd yn amhrisiadwy wrth gynhyrchu'r llyfrau a'r adnoddau ategol. Mae gan Melissa lawer o flynyddoedd o brofiad fel cyd-lynydd Addysg Grefyddol ac mae wedi gweithio gyda disgyblion Blynyddoedd Cynnar am lawer o flynyddoedd.

# Addysg Grefyddol
# a Datblygiad Aml-Ddiwylliannol yng Nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen

**Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen:**
Mae cwricwlwm Y Cyfnod Sylfaen 2008 yn darparu a chryfhau llawer o gyfleoedd i gynnwys y datblygiad o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth crefyddol a diwylliannol ochr yn ochr â meysydd dysgu eraill.

Bydd adnoddau *Books @ Press* yn llwyr gefnogi'r addysg grefyddol a ddarparir yn ôl y Maes Llafur Cytûn lleol a'r agweddau canlynol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**

- Datblygu eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol
- Datblygu dealltwriaeth fod gan eraill farn a chred
- Datblygu syniad o berthyn fel rhan o gymunedau gwahanol
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol
- Dod yn fwyfwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n agweddau pwysig o'r diwylliannau sydd yng Nghymru
- Dathlu gwahanol ddiwylliannau a helpu plant i adnabod ac i gael agwedd bositif tuag at eu diwylliant eu hun a diwylliannau pobl eraill
- Dod yn fwyfwy ymwybodol o, a gwerthfawrol o werth, yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yn y Gymru aml-ddiwylliannol hon

Cynhyrchwyd adnoddau Books @Press yn benodol ar gyfer eu defnyddio gyda phlant meithrin a derbyn neu blant yng nghyfnod cynnar Y Cyfnod Sylfaen. Mae'r storiau a'r adnoddau ategol hefyd yn cynnig cyfleoedd i ymestyn gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau plant mwy galluog a phlant yng nghyfnodau diweddar Y Cyfnod Sylfaen.

Ein prif fwriad wrth gynhyrchu'r adnoddau hyn oedd cefnogi ymarferwyr i ddarparu **Addysg Grefyddol addas ac ystyrlon** i blant o'r oed hwn.

Mae'r canlynol yn crynhoi ein athroniaeth:

'Ymhob achos, rhaid i Addysg Grefyddol fod yn ystyrlon ac addas, ac felly mae dewis gofalus o adnoddau a chyd-destunau ar gyfer dysgu yn holl bwysig. Dylai'r Ddarparieath o Addysg Grefyddol ddangos cysondeb gydag arfer dda yng ngweddill y cwricwlwm i'r oed hwn a dylai felly gael ei seilio'n eang ar ymrwymiad gweithredol mewn profiadau uniongyrchol.Bydd gweithgareddau sydd wedi eu ffocysu mewn Addysg Grefyddol dda yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu chwarae dychmygus, sgiliau iaith a mathemateg, creu cerddoriaeth a chelfwaith creadigol. Yn ogystal â gwneud cyfraniad sylweddol i wybodaeth disgyblion a'u dealltwriaeth o'r byd a'u datblygiad personol a chymdeithasol, bydd Addysg Grefyddol dda yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ledaenu profiadau diwylliannol y disgyblion a datblygu ymwybyddiaeth o ddimensiwn ysbrydol i fywyd.

*GMV 2002*

## Cysylltiadau rhwng Addysg Grefyddol a Chwricwlwm Y Cyfnod Sylfaen

Mae'r canlynol yn darparu manylion am gysylltiadau penodol rhwng meysydd Addysg Grefyddol a'r Meysydd Dysgu yn nogfen Y Cyfnod Sylfaen 2008.

| **Addysg Grefyddol yn Y Cyfnod Sylfaen**<br>**Meysydd i'w harchwilio:** | **Prif Gysylltiadau gyda Meysydd Dysgu'r CS** |
|---|---|
| **Y Byd Naturiol – Ymatebion a Chredoau**<br>Datblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod tuag at y byd naturiol<br>Datblygu chwilfrydedd am y byd naturiol<br>Cael cyfle i ddod yn ymwybodol o synnwyr o ryfeddod ac ysbrydolrwydd sy'n gysylltiedig â'r byd naturiol.<br>Gwerthfawrogi bod rhai pobl yn credu mai Duw greodd y byd.<br>Gwerthfawrogi bod rhai pobl yn gofalu am y byd naturiol oherwydd eu cred mai Duw greodd e, a rhoi'r cyfrifoldeb ar ddynoliaeth i ofalu amdano.<br>Gwerthfawrogi bod rhai pobl yn gofalu am y byd naturiol oherwydd eu bod yn dilyn cyfarwyddid arweinydd crefyddol/ysbrydol.<br>Clywed, a dod yn gyfarwydd â storïau, negeseuon, gweithredoedd, a myfyrdodau am ofalu am y byd naturiol. | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**<br>Datblygu eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol.<br>Datblygu dealltwriaeth fod gan eraill farn a chredoau gwahanol.<br>Datblygu agweddau positif tuag at fwynhau a gofalu am eu hamgylchedd.<br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**<br>Arddangos gofal, consyrn, cyfrifoldeb a pharch tuag at bethau byw a'r amgylchedd. |
| **Gŵyliau a Dathliadau**<br>Clywed a dod yn gyfarwydd â storïau, negeseuon, gweithredoedd, a myfyrdodau sy'n gysylltiedig â dathliadau bydol a gŵyliau crefyddol.<br>Archwilio a chael profiad o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gŵyliau.<br>Myfyrio ar sut maen nhw ac eraill yn ymwneud â dathliadau yn y cartref, yr ysgol a lleoedd o addoliad.<br>Datblygu gwybodaeth am pryd mae dathliadau'n cymryd lle.<br>Cael cyfleoedd i ymateb yn greadigol i'r dathliad o ŵyliau.<br>Mynegi eu teimladau am ddathliadau gŵyl. | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**<br>Datblygu syniad o berthyn fel rhan o gymunedau gwahanol<br>Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol<br>Dod yn fwyfwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n agweddau pwysig o'r diwylliannau sydd yng Nghymru<br>Dathlu gwahanol ddiwylliannau a helpu plant i adnabod ac i gael agwedd bositif tuag at eu diwylliant eu hun a diwylliannau pobl eraill<br>Dod yn fwyfwy ymwybodol o, a gwerthfawrol o werth, yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yn y Gymru aml-ddiwylliannol hon<br>**Creadigol**<br>Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau. |

| | |
|---|---|
| **Pobl a Helpu Eraill**<br>Clywed a dod yn gyfarwydd â storïau a digwyddiadau am helpu eraill.<br>Ystyried pwy sy'n eu helpu a sut gallan nhw helpu eraill yn y cartref, ysgol a'r gymuned.<br>Adnabod gwaith pobl seciwlar a chrefyddol yn yr ysgol a'r gymuned gan roi pwyslais ar sut maen nhw'n helpu eraill a beth sy'n eu cymell i wneud hynny.<br>Clywed storïau am bobl yn y gorffennol a'r presennol a gafodd ddylanwad ar fywydau pobl. | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**<br>Datblygu syniad o berthyn fel rhan o gymunedau gwahanol<br>Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol<br>Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rôlau mae pobl yn eu chwarae mewn grwpiau a chymunedau gwahanol.<br>Gwerthfawrogi ffrindiau a theulu a dangos gofal ac ystyriaeth tuag atynt.<br>Trin pobl o bob cefndir diwylliannol mewn dull parchus.<br><br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**<br>Dysgu am bobl a lleoedd – ble maen nhw'n gweithio. |
| **Gweddi a Lleoedd o Addoliad**<br>Cael profiad o adegau o lonyddwch a myfyrdod tawel.<br>Mwynhau bod gydag eraill a mynegi hyn yn ystod gweithgareddau megis canu, dawnsio, chwarae gêmau, gwrando ar, a chymryd rhan mewn dweud, stori.<br>Ystyried i bwy ac i beth maen nhw'n perthyn.<br>Myfyrio ar adegau ac ar weithgareddau maen nhw'n eu mwynhau.<br>Ystyried pam mae rhai pobl yn mwynhau mynd i le o addoliad.<br>Archwilio'r amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau sy'n cymryd lle mewn lle o addoliad.<br>Ystyried sut a pham mae rhai pobl yn gweddïo. | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**<br>Datblygu syniad o berthyn fel rhan o gymunedau gwahanol<br>Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol<br>Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rôlau mae pobl yn eu chwarae mewn grwpiau a chymunedau gwahanol.<br><br>**Creadigol**<br>Profi traddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau<br>Profi cerddoriaeth o Gymru ac o ddiwylliannau eraill<br>Canu ystod o ganeuon gydag eraill<br>Adnabod a disgrifio seiniau a gwrando ar gerddoriaeth ac ymateb iddo<br><br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**<br>Dysgu am bobl a lleoedd |
| **Storïau a Digwyddiadau**<br>Adnabod fod llyfrau'n cynnwys storïau a gwybodaeth a all ddylanwadu ar fywydau pobl.<br>Trafod a gwerthfawrogi llyfrau mewn dull addas.<br>Mwynhau storïau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, gweithgareddau a dysgeidiaeth crefyddol..<br>Gwerthfawrogi fod rhai llyfrau megis testunau sanctaidd o bwys penodol i rai pobl, eu bod yn cynnwys arweiniad i, a rheolau am, fywyd, ac yn cael eu defnyddio a'u trin mewn dull arbennig. | **Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**<br>Clywed darlleniadau bywiog o amrywiaeth o ffynonellau<br>Cael eu cyflwyno'n eang i lyfrau, storïau a geiriau sydd o'u cwmpas<br>Profi ac ymateb i storïau o Gymru ac o ystod o ddiwylliannau<br><br>**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**<br>Defnyddio storïau neu sefyllfaoedd i godi cwestiynau ynglŷn â pham mae rhai pethau yn arbennig<br>Datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau<br>Datblygu eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol.<br>Datblygu dealltwriaeth fod gan eraill farn a chredoau gwahanol. |

# Taflenni Cefnogi

Mae’r taflenni cefnogi canlynol yn cynnig mannau cychwyn ac awgrymiadau am ystod o weithgareddau a ellir eu harchwilio yn gysylltiedig â’r llyfrau a’u adnoddau ategol.

Dylai athrawon ddewis gweithgareddau sy’n addas i anghenion a galluoedd y plant.  Yn naturol, bydd athrawon a disgyblion yn datblygu ystod o weithgareddau eraill wrth iddyn nhw archwilio a mwynhau’r adnoddau.

Mae’r gweithgareddau a awgrymir wedi cael eu traws-gyfeirio i elfennau penodol o’r meysydd dysgu yng nghwricwlwm Y Cyfnod Sylfaen.  Yn ogystal, gwnaed cysylltiadau gyda meysydd o addysg grefyddol sydd fel arfer i’w gweld mewn Meysydd Llafur Cytûn Lleol.

# Yr Adar Bach

Ail-adroddiad hyfryd o stori draddodiadol Fwslimaidd yw Yr Adar Bach sy'n annog plant i feddwl am eu gweithredoedd a'u cyfrifoldebau tuag at y byd naturiol.

**Mae'r adnodd hwn yn berffaith i gefnogi thema ar blanhigion ac anifeiliaid.**

Cafodd y llyfr hwn ei argraffu mewn diwyg maint safonol yn Saesneg. Mae'r CD ategol yn cynnwys fersiynau gweledol a chlywedol yn Saesneg, a dau fersiwn Cymraeg. Cafodd y ddau fersiwn Cymraeg o *Yr Adar Bach* eu hysgrifennu ar wahanol lefelau, ac maent felly'n cynnig adnodd delfrydol ar gyfer ysgolion cyfrwng-Cymraeg ac ysgolion cyfrwng-Saesneg er mwyn cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghwricwlwm Cyfnod Allweddol 2. Mae copi cefnogi o'r stori i athrawon mewn Cymraeg/Saesneg hefyd yn gynwysiedig ar y CD.

Mae set hardd o bypedau llaw/bys o fam aderyn ac adar bach hefyd ar gael gyda nyth sy'n addasu i fod yn fag i gadw'r adar ynddo.

# Gweithgareddau wedi eu ffocysu / Gwe Draws-Gwricwlaidd Darpariaeth Uwch

## Creadigol

**Gwneud lluniau adar, colláges, masgiau a.y.y.b:**
Archwilio ac arbrofi gyda nifer o dechnegau a deunyddiau (S)
Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau (Y)

## Addysg Grefyddol

**Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo** (Y)
Archwilio storïau crefyddol a'u negeseuon am y byd naturiol. (Y)
**Mwynhau stori *Yr Adar Bach***
Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. (Y)
Gwerthfawrogi'r negeseuon mae rhai o'r storïau hyn yn eu cyfleu. (Y) Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai o'r storïau hyn i rai pobl. (Y)
**Archwilio'r ffordd a'r rhesymau pam maen nhw ac eraill yn dangos gofal, consyrn a pharch tuag at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol.** (Y)
Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd. (S)
**Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd** (S) Mynegi eu barn a'u teimladau eu hun, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwynt eraill. (S)
Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig (S)
Meddwl,a gofyn cwestiynau amdanynt eu hun ac am bethau byw a gwrando ar atebion pobl eraill. (S)
Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif tuag at brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill. (S)

## Corfforol

## Personol, Cymdeithasol, Lles a Diwylliannol

**Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol** ac anghenion, barnau a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)
Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros benderfyniadau a wnaethant. (S)
Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymleth. (S)
Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S)
**Arddangos gofal a pharch at eu hamgylchedd**. (S)
Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)
Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed mewn storïau a chynnig ymatebion gwahanol. (S)
Deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a dod yn amgylcheddol-gyfeillgar yn eu bywydau o ddydd i ddydd. (Y)
Cyfathrebu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau amdanynt eu hunain, am eraill ac am y byd (Y)

Cyd-destun Dysgu / Thema:

**Yr Adar Bach**

**Pecyn adnoddau llyfr a CD**

Gan Gill Vaisey

## Mathemategol

**Dosbarthu lluniau o adar yn ôl eu nodweddion gwahanol**
Datblygu eu hiaith fathemategol….. Cy)
Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (Cy)

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Mwynhau stori *Yr Adar Bach*:**
Cael profiad o, ac ymatebi, storïau o ystod o ddiwylliannau(Y) Trafod y stori a'i neges (S).
Ymateb i'r stori gan roi eu safbwynt a'u barn eu hunain am yr hyn wnaeth Muhammad. (Cy)
Cyfathrebu drwy weithgareddau strwythredig – **ail-ddweud y stori gyda'r pypedau o adar** (Cr)
Cymryd rhan mewn chwarae rôl a gweithgareddau drama a chwarae dychmygus (Y) **Ni ddylai plant chwarae-rôl y Proffwyd Muhammad.**
Mabwysiadu rôl, gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystum a lleferydd gan ddefnyddio iaith addas i'r rôl neu'r sefyllfa. (S)

## Cymraeg

**Defnyddio'r CD clyweledol o *Yr Adar bach*:**
Defnyddio cyd-destun i ddarganfod ystyr geiriau cyfarwydd a datgodio geiriau newydd drwy ddefnyddio cliwiau mewn lluniau, synau llythrennau a siap geiriau (Cy)
Edrych ar, a gwrando'n ofalus ar, amrywiaeth o symbyliadau gweledol a chlyweledol. (Cy)

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Cymharu'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n y llyfr gyda'r rhai sydd yn yr amgylchedd lleol:**
Adnabod rhai o'r anifeiliaid a'r planhigion sy'n byw yn yr amgylchedd tu allan.
Sylwi ar wahaniaethau rhwng anifeiliaid er mwyn eu grwpio (Cr)
**Gwrando ar ymwelydd o'r RSPB er mwyn dysgu am eu gwaith.**

# Awgrymiadau am Weithgareddau i'r Cyfnod Sylfaen
# gan ganolbwyntio ar Addysg Ddiwylliannol a Chrefyddol

**<u>Themâu Cyffredinol Posibl:</u> Tir yr Ysgol/Ysgol Coedwig; Gerddi; Gwanwyn; Dechreuadau; Planhigion ac Anifeiliaid; Adar**

**<u>Thema Add. Gref.</u>: Dangos cyfrifoldeb tuag at y byd naturiol.** **<u>Adnodd Allweddol:</u> Yr Adar Bach**

**<u>Ffocws Add. Gref.</u>: Gwerthfawrogi a chael profiad o'r planhigion a'r anifeiliaid yn y byd naturiol a meddwl am ein gweithredoedd a'u canlyniadau**

**Testun yn addas ar gyfer**: holl blant y Cyfnod Sylfaen.

| Gweithgareddau | Add. Gref. a Meysydd Dysgu (2008) |
|---|---|
| O fewn tir yr ysgol neu'r ardd agosaf, annog plant i wrando ar synau byd natur, yn benodol cân a synau adar, | **<u>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd:</u>** Adnabod yr effaith a gaiff y tymhorau gwahanol ar rai anifeiliaid a phlanhigion (Y)<br>**<u>Add. Gref</u>.**: Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo (Y) |
| Cefnogi plant i wneud bwyd adar i'w hongian ar declyn bwydo. | **<u>Lles:</u>** Arddangos gofal a pharch tuag at yr amgylchedd (S)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas (S) |
| Cefnogi plant i osod teclynnau bwydo adar fel eu bod yn medru gwylio ac arsylwi ar yr adar sy'n eu defnyddio. | **<u>Lles:</u>** Arddangos gofal a pharch tuag at yr amgylchedd (S)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo (Y)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd (S) |
| Darparu sbienddrychau dwbl a chamerau i'r plant i arsylwi ar, a thynnu lluniau o, adar tu allan. | **<u>Lles:</u>** Arddangos gofal a pharch tuag at yr amgylchedd (S)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo (Y) |
| Darparu cyfleoedd i'r plant i edrych ar lyfrau, fideos a ffotograffau o wahanol fathau o adar Prydeinig. | **<u>Lles:</u>** Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo (Y) |
| Cymharu adar a welir ym Mhrydain gyda rhai mewn gwahanol rannau o'r byd. | **<u>Lles</u>** Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo (Y) |

| | |
|---|---|
| Darparu pypedau adar, teganau a modelau i blant eu trefnu a'u dosbarthu yn ôl eu meini prawf eu hun. | **<u>Mathemategol:</u>** Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>Adnabod patrymau, dilyniannau a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol (S)<br>**<u>Cymdeithasol:</u>** Ffurfio perthynas ag eraill a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd. (S)<br>**<u>Cymraeg:</u>** Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell ac wrth gyfleu ystyr.(S) |
| Ychwanegu deunyddiau at yr ardal celf a chrefft er mwyn i'r plant gael gwneud lluniau, colláges, masgiau a.y.y.b. o wahanol adar. | **<u>Creadigol:</u>** Archwilio i, ac arbrofi gyda, amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau. (S)<br>Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau. (S) |
| Rhannu stori *Yr Adar Bach*, gan Gill Vaisey, o'r llyfr argraffiedig a / neu o'r CD sydd ar gyfer ei ddefnyddio ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. | **<u>Iaith…</u>**: Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau. (Y)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Archwilio storïau crefyddol a'u neges am y byd naturiol. (Y)<br>Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. Gwerthfawrogi'r negeseuon y gall rhai o'r stoïau eu cyfleu. (Y)<br>Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai o'r storïau hyn i rai pobl. (Y)<br>Archwilio'r ffordd a'r rhesymau pam maen nhw ac eraill yn dangos gofal, consyrn a pharch tuag at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol. (Y)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd (S)<br>Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd. (S)<br>Mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwyntiau pobl eraill. (S)<br>Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig.(S)<br>Meddwl a gofyn cwestiynau amdanynt eu hunain ac am bethau byw a gwrando ar atebion pobl eraill.(S)<br>Gofyn cwestiynau am sut a pham y dylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch ac ymateb yn bersonol. (S) |
| Annog y plant i fyfyrio ar neges y stori ac ar eu gweithredoedd a'u canlyniadau mewn perthynas â'r byd naturiol<br><br>Annog y plant i feddwl am gredoau Mwslimaidd am y byd naturiol (fel y cânt eu portreadu yn y stori).<br><br>Annog y plant i feddwl am eu credoau a'u hagweddau eu hun am, a thuag at, y byd naturiol. | **<u>Cymdeithasol:</u>** Datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a gwahanol anghenion, safbwyntiau a chredoau pobl yn eu diwylliant nhw a diwylliant pobl eraill. (S)<br>Ystyried canlyniadau geiriau a gweithredoedd iddyn nhw ac eraill. (S)<br>Datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac anheg. (S)<br>**<u>Moesol ac Ysbrydol</u>**<u>:</u> Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)<br>Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed mewn storïau a chynnig ymatebion gwahanol. (S)<br>Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros benderfyniadau a wnaethant. (S)<br>Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael |

| | |
|---|---|
| | yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymleth. (S)<br>Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S)<br>Gofyn cwestiynau am beth sy'n bwysig mewn bywyd o berspectif personol ac o berspectif pobl eraill. (S)<br>**Lles:** Arddangos gofal, parch a hoffter at blant eraill a'r amgylchedd. (S)<br>Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas. (S) |
| Annog y plant i siarad am y teimladau a geir yn y llyfr: diogel, poeni, ofnus, wedi dychryn, yn flin – a sefyllfaoedd pan maen nhw'n teimlo fel hyn. | **Moesol ac Ysbrydol:** Mynegi syniadau a theimladau yn greadigol, gan egluro pan maen nhw'n bwysig. (S)<br>Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymleth. (S)<br>**Lles:** Bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn dull addas. (S)<br>Deall y berthynas rhwng teimladau a gweithredoedd, a bod teimladau gan bobl eraill. (S) |
| Cynnig cyfle i'r plant fwynhau'r fersiwn clywedol o'r stori. | **Iaith …**: Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)<br>**Add. Gref:** Archwilio storïau crefyddol a'u negeseuon am y byd naturiol. (Y)<br>Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd..<br>**Personal:** Arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd gan gynnwys TGCh (S) |
| Annog disgyblion i ail-adrodd y stori gan ddefnyddio set pyped llaw y fam-aderyn a phyped bys yr adar bach a'r nyth. | **Iaith …**: Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)<br>**Add. Gref:** Archwilio storïau crefyddol a'u negeseuon am y byd naturiol (Y)<br>Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd.. |
| Cynnig cyflei blant ddefnyddio CD *Yr Adar Bach* ar gyfrifiaduron personol. | **Iaith …**: Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)<br>**Add. Gref:** Archwilio storïau crefyddol a'u negeseuon am y byd naturiol. (Y)<br>Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd.. |
| Drwy ddefnyddio'r CD a'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol, rhannu'r fersiwn Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith) o Yr Adar Bach gyda'r plant | **Cymraeg:** Gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus addas. (S)<br>Gwrando ar stori'n cael ei darllen drwy ddilyn y gair ysgrifenedig. (S)<br>Gwrando ar ddarlleniadau bywiog o awrywiaeth o ffynonellau. (Y)<br>Gwerthfawrogi llyfrau, storïau a geiriau o'u cwmpas. (Y)<br>Gwrando ar, ac ymateb i, ddeunydd dychmygus gan gynnwys gwaith a ysgrifenwyd ar gyfer dysgwyr, storïau, iaith gyda phatrwm ac iaith ddisgwyliadwy. (Y)<br>Ymuno mewn storïau syml. (Y) |

| | |
|---|---|
| Cynnig cyfle i blant wrando ar y CD clyweledol *Yr Adar Bach* ar gyfrifiaduron personol. | **Cymraeg:**<br>Gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus addas. (S)<br>Gwrando ar stori'n cael ei darllen drwy ddilyn y gair ysgrifenedig. (S)<br>Deall pwysigrwydd y gair printiedig a'r berthynas rhwng symbolau printiedig a phatrymau sain.(S)<br>Defnyddio cyd-destun i ddarganfod ystyr geiriau cyfarwydd a datgodio geiriau newydd drwy ddefnyddio cliwiau mewn lluniau, synau llythrennau a siap geiriau (S)<br>Edrych ar, a gwrando'n ofalus ar, amrywiaeth o symbyliadau gweledol a chlyweledol. (S) |
| Annog plant i ddangos eu dealltwriaeth o stori *Yr Adar* Bach drwy ddefnyddio'r set bypedau o adar i ddweud y stori ochr yn ochr â'r testun. | **Cymraeg:**<br>Dangos dealltwriaeth o'r hyn maen nhw neu eraill wedi ei ddarllen drwy ymateb yn llafar neu heb eiriau i'r cynnwys. (S) |
| Cynnig cyfle i blant ddarganfod gwybodaeth am waith yr RSPB drwy wahodd ymwelydd i'r ysgol / ddefnyddio'r Wefan a deunyddiau ysgolion. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**:<br>Adnabod sut gall gweithgareddau pobl wella neu niweidio'r amgylchedd.<br>Ymchwilio sut mae pobl a lleoedd yn gysylltiedig.<br>Adnabod rhai o'r anifeiliaid a'r planhigion sy'n byw yn yr amgylchedd tu allan. |

© Primary Religious Education Support Service GMV / 2008

# The Tiny Ants (Y Morgrug Bychain)

Ailadroddiad difyr o stori draddodiadol Fwslimaidd sy'n annog plant i feddwl am bwysigrwydd gofalu am y byd naturiol yw The Tiny Ants.

Mae'r llyfr mawr a'r pecyn adnoddau traws-gwricwlaidd yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi'n uniongyrchol Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, datblygiad Mathemategol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

**Mae'r adnodd hwn yn berffaith i gefnogi thema ar anifeiliaid a chreaduriaid-bach.**

Mae'r llyfr hwn hefyd wedi ei gynhyrchu mewn diwyg maint safonol, sy'n cynnig cyfle ychwanegol i blant afael yn y llyfr yn hawdd a mwynhau'r llyfr ar eu pen ei hun.

# Gweithgareddau wedi eu ffocysu / Gwe Draws-Gwricwlaidd Darpariaeth Uwch

## Creadigol

**Mwynhau canu a defnyddio offerynnau taro** o lyfr caneuon "From The Tiny Ant" BBC Come And Praise 2 a'r CD.
Archwilio ystod o ffynonellau sain ac arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o wneud a threfnu sain (S)
Chwarae patrymau rhythmig a melodaidd syml ar amrywiaeth o offerynnau (S)
Myfyrio ar eu cerddoriaeth eu hun ac ar un pobl eraill (S)

## Addysg Grefyddol

**Archwilio storïau crefyddol a'u negeseuon am y byd naturiol. (Y)**
Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. Gwerthfawrogi'r negeseuon mae rhai o'r storïau hyn yn eu cyfleu.
Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai o'r storïau hyn i rai pobl. (Y)
**Archwilio'r ffordd a'r rhesymau pam maen nhw ac eraill yn dangos gofal, consyrn a pharch tuag at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol.** (Y)
Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd. (S)
**Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd** (S) Mynegi eu barn a'u teimladau eu hun, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwynt eraill. (S)
Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig (S)
**Meddwl, a gofyn cwestiynau, amdanynt eu hun ac am bethau byw a gwrando ar atebion pobl eraill.** (S)

## Corfforol

**Copío symudiadau a gweithredoedd amrywiaeth o greaduriaid e.e. morgrug, mwydod (pry genwair), corrynod (pryfed cop)**
Gwella'u rheolaeth, a'u defnydd o wahanol siapiau, lefelau a chyfeiriadau (S)

## Personol, Cymdeithasol, Lles a Diwylliannol

**Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol** ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)
Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros benderfyniadau a wnaethant. (S)
Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymleth. (S)
Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S)
**Arddangos gofal a pharch at eu hamgylchedd.** (S)
Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)
Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed mewn storïau a chynnig ymatebion gwahanol. (S)
Ffurfio perthynas ag eraill a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd. (S)
Canolbwyntio am gyfnodau ymestynol. (S)

Cyd-destun Dysgu / Thema:

**The Tiny Ants**

**Llyfr mawr a phecyn adnoddau**

Gan Gill Vaisey

## Mathemategol

Dosbarthu anifeiliaid i grwpiau o faint gwahanol. (Y)
**Chwarae'r gêm fwrdd fawr 'Care and Beware**' gyda chownteri a dis a datblygu diddordeb mewn rhif. (Y)
Defnyddio rhifau'n naturiol yn eu chwarae.
**Chwarae'r 'Care for Creatures Game'** mewn grwpiau bach.
**Dangos data a gasglwyd ar y pictogram** (Y)
Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)
Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (S)

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Mwynhau stori *The Tiny Ants*:**
Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)
Trafod y stori a'i neges (S).
Ymateb i'r stori gan roi eu safbwynt a'u barn eu hunain am weithredoedd y dynion ac ymateb Muhammad. (S)
Cyfathrebu drwy weithgareddau strwythredig ailadrodd y stori gyda'r cardiau bwrdd-stori (Y)

## Cymraeg

Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S)
**Defnyddio'r geiriau Cymraeg am y creaduriaid amrywiol a welir yn y llyfr:** morgrugyn, gwlithen,mwydyn (pry genwair), lindys, corryn (pry copyn), malwoden.
**Defnyddio Cymraeg wrth chwarae'r gêmau mathemategol sy'n gysylltiedig â'r llyfr.**

**Defnyddio Cymraeg wrth siarad am deimladau – trist, hapus, poeni, ,ofnus, teimlo rhyddhad.**

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Arsylwi ar, ac adnabod, amrywiaeth o greaduriaid (Y)**
Arsylwi ar wahaniaethau rhwng anifeiliaid er mwyn eu grwpio. (Y)
Adnabod rhai anifeiliaid sy'n byw yn yr amgylchedd tu allan. (Y)

## Awgrymiadau am Weithgareddau i'r Cyfnod Sylfaen
## gan ganolbwyntio ar Addysg Ddiwylliannol a Chrefyddol

**Themâu Cyffredinol Posibl:** **Creaduriaid Bach; Yn Yr Ardd; Y Byd Naturiol; Anifeiliaid; Ein Byd**

**Thema Add. Gref:** **Y Creu a'r Byd Naturiol** **Adnodd Allweddol:** **The Tiny Ants (Y Morgrug Bach)**

**Ffocws Add. Gref:** **I werthfawrogi bod creaduriaid o bob siap a maint yn gyfartal bwysig ac yn haeddu gofal.**
**I ddod yn gyfarwydd â stori draddodiadol Fwslimaidd**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn ymwneud â'r llyfr: **'The Tiny Ants' - Stori Fwslimaidd** Ail-adroddir gan Gill Vaisey, Darluniau gan Louise Gwillym.

| Gweithgareddau | Add. Gref. a Meysydd Dysgu (2008) |
|---|---|
| Darllen y llyfr a rhoi cyfle i'r disgyblion adnabod y gwahanol greaduriaid a welir. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**:<br>Arsylwi ar wahaniaethau rhwng anifeiliaid er mwyn eu grwpio. (Y)<br>Adnabod rhai anifeiliaid sy'n byw yn yr amgylchedd tu allan. (Y) |
| Trafod y stori a'i neges. Caniatau i'r disgyblion ymateb i'r stori gan roi eu safbwynt a'u barn am weithredoedd y dynion ac ymateb Muhammad. | **Iaith…**: Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)<br>**Add. Gref.:** Archwilio storïau crefyddol a'u neges am y byd naturiol. (Y)<br>Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. Gwerthfawrogi'r negeseuon y gall rhai o'r stoïau eu cyfleu. (Y)<br>Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai o'r storïau hyn i rai pobl. (Y)<br>Archwilio'r ffordd a'r rhesymau pam maen nhw ac eraill yn dangos gofal, consyrn a pharch tuag at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol. (Y)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd (S)<br>Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd. (S)<br>Mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwyntiau pobl eraill. (S)<br>Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig.(S)<br>Meddwl a gofyn cwestiynau amdanynt eu hunain ac am bethau byw a gwrando ar atebion pobl eraill.(S)<br>**Cymdeithasol:** Datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a gwahanol anghenion, safbwyntiau a chredoau pobl yn eu diwylliant nhw a diwylliant pobl eraill. (S)<br>**Moesol ac Ysbrydol**: Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S) |

| | |
|---|---|
| Darparu cyfle i'r disgyblion archwilio tir yr ysgol neu'r ardal "werdd" agosaf i ddarganfod gwahanol greaduriaid yn eu cynefin naturiol a'u paru nhw gyda'r rhai yn y llyfr.<br>Cyflwyno'r pictogram fel gweithgaredd wedi ei ffocysu – gall disgyblion gofnodi pa greaduriaid a welsant yn ystod eu hymchwiliad.<br>Ymestyn yr ardal Fathemateg gyda'r pictogram fel bod disgyblion yn gallu ei ddefnyddio'n ddigymell yn eu gêmau a'u harsylwadau o greaduriaid. | **Add. Gref:** Dechrau gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hun ac am y byd o'u cwmpas. (S)<br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**: Arsylwi ar wahaniaethau rhwng gwahanol anifeiliaid er mwyn eu grwpio. (Y)<br>Adnabod rhai anifeiliaid sy'n byw yn yr amgylchedd tu allan. (Y)<br>**Mathemategol** Cynrychioli data a gasglwyd yn wreiddiol drwy ddefnyddio (gwrthrychau) go iawn, lluniau (neu ddiagramau), a symud ymlaen i amrywiaeth o siartiau syml…(Y) |
| Cynnig cyfle i'r disgyblion i ail-ymweld â'r stori. Annog y disgyblion i feddwl am sut yr oedden nhw, neu'r morgrug, yn teimlo ar wahanol adegau yn y stori. Defnyddio bwrdd dilyniant (gosod mewn trefn) o'r stori i helpu i ffocysu ar emosiynau. | **Moesol ac Ysbrydol:** Ymateb i syniadau a chwestiynau'n frwdfrydig, yn sensitif, yn greadigol ac yn reddfol. (S)<br>Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)<br>Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed mewn storïau a chynnig ymatebion gwahanol. (S)<br>**Mathemategol:** Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (S) |
| Ymestyn yr ardal iaith gyda lluniau'r bwrdd stori o'r llyfr er mwyn cynnig cyfle i'r plant i'w gosod mewn trefn ac ail-adrodd y stori. | **Mathemategol**: Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (S)<br>**Iaith:** Cyfarthrebu drwy weithgareddau strwythredig - ail-adrodd storïau (Y) |
| Cyflwyno'r 'Care for Creatures Game' fel gweithgaredd wedi ei ffocysu.<br>Ymestyn yr ardal Fathemateg gyda'r 'Care for Creatures Game' gan gynnig cyfle i grwpiau bach chwarae'r gêm. Bydd gan bob plentyn gerdyn gyda phedwar llun sy'n dangos creadur mewn perygl posibl. Bydd pob disgybl yn cymryd ei dro i dynnu creadur allan o fag llinyn-tynnu. Os yw'r creadur yn paru gydag un ar ei gerdyn, gall ei hawlio a siarad am sut gallwn ni fod yn ofalus ac osgoi bod y creadur yn cael ei niweidio'n ddamweiniol. Wedyn, gall y nifer a'r mathau o greaduriaid a gasglwyd gael eu dangos ar y pictogram.<br>Annog y disgyblion i gyfeirio at enwau'r creaduriaid yn Gymraeg. | **Moesol ac Ysbrydol:** Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros benderfyniadau a wnaethant. (S)<br>Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymleth. (S)<br>Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S)<br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**: Arsylwi ar wahaniaethau rhwng anifeiliaid er mwyn eu grwpio. (Y)<br>**Mathemategol:** Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>Cynrychioli data a gasglwyd yn wreiddiol drwy ddefnyddio gwrthrychau go iawn, lluniau (neu ddiagramau), a symud ymlaen i amrywiaeth o siartiau syml…(Y)<br>**Lles:** Arddangos gofal a pharch at yr amgylchedd (S)<br>**Cymdeithasol:** Ffurfio perthynas a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd (S) Canolbwyntio am gyfnodau ymestynol (S)<br>**Cymraeg:** Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S) |

| | |
|---|---|
| Cyflwyno'r gêm fwrdd 'Care and Beware Game' i grwpiau bach o ddisgyblion mwy galluog fel gweithgaredd wedi ei ffocysu.<br>Gellir ymestyn gweithgareddau'r ardal fathemateg i blant mwy galluog gyda'r 'Care and Beware Game'. Bwriad y gêm yw i'r disgyblion gasglu cardiau o'r creaduriaid maen nhw wedi gofalu amdanynt yn y gêm. Wedyn, gellir dangos y nifer a'r mathau o greaduriaid ar y pictogram. Wrth i wahanol grwpiau chwarae'r gêm dros gyfnod o amser, gellir cofnodi cyfanswm cynyddol. | **Mathemategol**: Datblygu diddordeb mewn rhifau (Y)<br>Datblygu eu hiaith fathemategol… (S)<br>Cynrychioli data a gasglwyd yn wreiddiol drwy ddefnyddio gwrthrychau go iawn, lluniau (neu ddiagramau), a symud ymlaen i amrywiaeth o siartiau syml…(Y)<br>**Cymdeithasol:** Ffurfio perthnasau a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd (S)<br>Canolbwyntio am gyfnodau ymestynol (S) |
| Cynnig cyfle i'r disgyblion ganu a mwynhau'r gân: 'From The Tiny Ant' o lyfr canu a CD'r BBC Come And Praise 2. | **Creadigol**: Canu ystod o ganeuon gydag eraill (S) |
| Gallai'r disgyblion wrando ar sain offerynnau a dewis offeryn i gynrychioli pob un o'r anifeiliaid y soniwyd amdanynt yn y gân. Gall y disgyblion chwarae'r offeryn pan sonir am yr anifail yn y gân. | **Creadigol:** Archwilio ystod o ffynonellau sain ac arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o wneud a threfnu sain (S)<br>Chwarae patrymau rhythmig a melodaidd syml ar amrywiaeth o offerynnau (S)<br>Myfyrio ar eu cerddoriaeth eu hun ac un pobl eraill (S) |
| Darparu lluniau o anifeiliaid mawr, canolig a bach i'r disgyblion eu dosbarthu i grwpiau. (Os yw'n bosibl, dylid defnyddio'r anifeiliaid y sonir amdanynt yn y gân).<br>Annog y disgyblion i feddwl am, a thrafod, sut gallwn ni helpu i ofalu am y gwahanol fathau o anifeiliaid. Eu hannog nhw i ddod i'r casgliad eu bod nhw i gyd yn gydradd bwysig, yn union fel y dwedodd Muhammad yn y stori. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**: Arsylwi ar wahaniaethau rhwng anifeiliaid er mwyn eu grwpio. (Y)<br>**Mathemategol:** Trefnu a dosbarthu setiau o wrthrychau gan ddefnyddio un neu ragor o feini prawf. (S)<br>**Lles:** Arddangos gofal a pharch tuag at yr amgylchedd (S)<br>**Add. Gref.:** Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd (S) |

# Seven New Kittens(Saith Cath Fach Newydd)

Stori draddodiadol Fwslimaidd sy'n annog plant i fyfyrio ar harddwch a rhyfeddod bywyd newydd a'r byd naturiol yw Seven New Kittens.
Mae plant yn ymhyfrydu wrth ddisgwyl am, a chyfri'r, cathod bach wrth iddynt gael eu geni ac ymddangos ar y tudalennau gyda datblygiad y stori.

Mae'r llyfr mawr a'r pecyn adnoddau traws-gwricwlaidd yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi'n uniongyrchol Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, datblygiad Mathemategol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

**Mae llawer o gyfle i gyfri a pharu lliwiau ac mae'r stori'n addas iawn ar gyfer thema ar fywyd newydd ac anifeiliaid bach.**

Mae'r llyfr hwn hefyd wedi ei gynhyrchu mewn diwyg maint safonol, sy'n cynnig cyfle ychwanegol i blant afael yn y llyfr yn hawdd a mwynhau'r llyfr ar eu pen ei hun.

# Gweithgareddau wedi eu ffocysu / Gwe Draws-Gwricwlaidd Darpariaeth Uwch

## Creadigol

**Creu ardal chwarae-rôl o'r stori:**
Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S)
Datblygu eu hymateb i luniau, geiriau a syniadau (S)
Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)

## Addysg Grefyddol

**Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo. (**Y)
Archwilio storïau crefyddol a'u negeseuon am y byd naturiol. (Y)
Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. (Y)
Gwerthfawrogi'r negeseuon mae rhai o'r storïau hyn yn eu cyfleu. (Y) Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai o'r storïau hyn i rai pobl. (Y)
**Archwilio'r ffordd a'r rhesymau pam maen nhw ac eraill yn dangos gofal, consyrn a pharch tuag at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol. (**Y)
Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd. (S)
**Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd.** (S) Mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwynt eraill. (S)
Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig (S)
Meddwl,a gofyn cwestiynau amdanynt eu hun ac am bethau byw a gwrando ar atebion pobl eraill. (S)
Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif tuag at brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill. (S)

## Corfforol

## Personol, Cymdeithasol, Lles a Diwylliannol

**Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol** ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)
Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros benderfyniadau a wnaethant. (S)
Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymleth. (S)
Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S)
**Arddangos gofal a pharch at eu hamgylchedd.** (S)
Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)
Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed mewn storïau a chynnig ymatebion gwahanol. (S)
Ffurfio perthnas ag eraill a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd. (S)

Cyd-destun Dysgu / Thema:

**Seven New Kittens**

**Llyfr mawr a phecyn adnoddau**

Gan Gill Vaisey

## Mathemategol

**Chwarae'r gêm fwrdd fawr 'Collect the Kittens'** gyda chownteri a dis a datblygu diddordeb mewn rhif. (Y)
Defnyddio rhifau'n naturiol yn eu chwarae (Y)
**Chwarae'r 'Match the Kittens Game'** mewn grwpiau bach.
Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)
Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (S)

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Mwynhau'r stori *Seven New Kittens*:**
Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau. (Y) Trafod y stori a'i neges (S).
Ymateb i'r stori gan roi eu safbwynt a'u barn eu hunain am weithredoedd Muhammad. (S)
Cyfathrebu drwy weithgareddau strwythredig - **ailadrodd y stori gyda'r cardiau bwrdd-stori** (Y)
Cymryd rhan mewn chwarae rôl a gweithgareddau drama a chwarae dychmygus (Y) **DS Ni ddylai plant chwarae rôl y Proffwyd Muhammad.**
Mabwysiadu rôl, gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystum a lleferydd gan ddefnyddio iaith addas i'r rôl neu'r sefyllfa. (S)

## Cymraeg

Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S)
**Defnyddio'r geiriau Cymraeg am y cathod bach a'u lliwiau fel y gwelir nhw yn y llyfr.**
**Defnyddio Cymraeg wrth chwarae'r gêmau mathemategol sy'n gysylltiedig â'r llyfr.**

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Arsylwi ar agweddau o'r gwanwyn:**
Adnabod yr effaith a gaiff gwahanol dymhorau ar rai anifeiliaid a phlanhigion. (Y)
Arsylwi ar wahaniaethau rhwng anifeiliaid er mwyn eu grwpio. (Y)
Adnabod rhai anifeiliaid sy'n byw yn yr amgylchedd tu allan. (Y)

# Awgrymiadau am Weithgareddau i'r Cyfnod Sylfaen
# gan ganolbwyntio ar Addysg Ddiwylliannol a Chrefyddol

**Themâu Cyffredinol Posibl:** **Bywyd Newydd; Anifeiliaid Bach; Anifeiliaid Anwes; Gwanwyn; Dechreuadau**

**Thema Add. Gref:** **Parchedig Ofn a Rhyfeddod Bywyd Newydd** **Adnodd Allweddol:** **Seven New Kittens**

**Ffocws Add. Gref:** **Gwerthfawrogi a chael profiad o barchedig ofn a rhyfeddod bywyd newydd ac ystyried y pwysigrwydd o'i werthfawrogi.**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn ymwneud â'r llyfr: **Seven New Kittens** gan Gill Vaisey.

| Gweithgareddau | Add. Gref. a Meysydd Dysgu (2008) |
|---|---|
| Annog y plant i fyfyrio ar dymor y gwanwyn – y tywydd, twf planhigion a bylbiau, blagur a blodau'r gwanwyn, anifeiliaid bach. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**: Adnabod yr effaith a gaiff gwahanol dymhorau ar rai anifeiliaid a phlanhigion. (Y)<br>**Add. Gref:** Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo (Y) |
| Darllen y llyfr *Seven New Kittens*. Cyn gorffen y stori, gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n feddwl fydd Muhammad yn ei wneud ynglŷn â'r cathod bach sydd ar ei glogyn (fantell).<br><br>Annog y plant i feddwl pa fath o berson oedd Muhammad yn ôl yr hyn a wnaeth e dros y cathod bach (caredig a gofalgar tuag at anifeiliaid). | **Iaith:** Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau. (Y)<br>**Add. Gref:** Archwilio storïau crefyddol a'u neges am y byd naturiol. (Y)<br>Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd.<br>Gwerthfawrogi'r negeseuon y gall rhai o'r storïau eu cyfleu. Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai o'r storïau hyn i rai pobl. (Y)<br>Archwilio'r ffordd a'r rhesymau pam maen nhw ac eraill yn dangos gofal, consyrn a pharch tuag at bethau byw, yr amgylchedd a'r byd naturiol. (Y)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd (S)<br>Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd. (S)<br>Mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwyntiau pobl eraill. (S)<br>Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynnau dynol a chrefyddol pwysig.(S)<br>Meddwl a gofyn cwestiynau amdanynt eu hunain ac am bethau byw a gwrando ar atebion pobl eraill.(S)<br>**Cymdeithasol:** Datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a gwahanol anghenion, safbwyntiau a chredoau pobl yn eu diwylliant nhw a diwylliant pobl eraill. (S)<br>**Moesol ac Ysbrydol**: Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S) Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros benderfyniadau a wnaethant. (S) |

| | |
|---|---|
| | Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a thrafod a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymleth. (S)<br>Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S) |
| Ymestyn yr ardal iaith gyda chardiau'r bwrdd stori a chynnig cyfle i'r plant osod y stori a lliwiau'r cathod bach mewn trefn. | **<u>Mathemategol:</u>** Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (S) |
| Ymestyn yr ardal fathemateg gyda'r rhifau a'r cathod bach er mwyn cynnig cyfle i'r disgyblion ddosbarthu, paru a gosod rhifau lliw, a chathod bach, mewn trefn. | **<u>Mathemategol:</u>** Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (S) |
| Cyflwyno'r gêm 'Match and Count the Kittens' fel gweithgaredd wedi ei ffocysu i grwpiau bach. Annog y defnydd o Gymraeg wrth gyfeirio at y nifer o gathod a'u lliwiau.<br>Ymestyn yr ardal fathemateg gyda chardiau'r gêm 'Match and Count the Kittens' fel bod grwpiau bach yn parhau i ddatblygu eu sgiliau paru a'u rhai cymdeithasol. | **<u>Mathemategol:</u>** Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>Adnabod patrymau, dilyniannau, a chydberthnasau drwy weithgareddau ymarferol. (S)<br>**<u>Cymdeithasol:</u>** Ffurfio perthynas a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd (S)<br>**<u>Cymraeg:</u>** Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell ac wrth gyfleu ystyr.(Cy) |
| Cyflwyno'r gêm fwrdd fawr 'Collect The Kittens' i grwpiau bach o blant mwy galluog.<br>Gellir ymestyn yr ardal fathemateg wedyn drwy annog y defnydd o gownteri a dis. | **<u>Mathemategol</u>:** Datblygu diddordeb mewn rhifau (Y)<br>Datblygu eu hiaith Fathemategol … (S)<br>**<u>Cymdeithasol</u>:** Ffurfio perthynas a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd (S)<br>Canolbwyntio a gyfnodau ymestynol (S) |
| Cynnig cyfleoedd i'r plant archwilio enwau anifeiliaid bach eraill, gan ddechrau gyda **cath** a **chathod bach**.<br><br>Annog plant i feddwl sut gallwn ni helpu i ofalu am anifeiliaid bach. | **<u>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd</u>:** Adnabod rhai anifeiliaid sy'n byw yn yr amgylchedd tu allan.<br>**<u>Lles:</u>** Arddangos gofal a pharch tuag at yr amgylchedd (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth a chyfrifoldeb tuag at bethau byw a'r amgylchedd (S). Archwilio parchedig ofn, syndod, rhyfeddod ac ysbrydolrwydd y byd rydyn ni'n byw ynddo (Y) |
| Ymestyn yr ardal grefft gyda deunyddiau addas (amrywiaeth o liwiau gwahanol a mathau o ffwr) i'r plant ddefnyddio i wneud colláges o gathod bach, lluniau neu fodelau. | **<u>Creadigol</u>:** Archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau (S)<br>Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau (S) |
| Darparu deunyddiau a phropiau y gall plant eu defnyddio i greu ardal chwarae sydd wedi ei selio ar y llyfr. Dylid cynnwys clogyn (mantell) coch, saith cath fach a'r fam-gath, coeden palmwydd a bwrdd gwlanen ar gyfer y rhifau a chardiau'r bwrdd stori.<br>**DS: Ni ddylai plant chwarae-rôl y Proffwyd Muhammad.** | **<u>Creadigol:</u>** Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S) Datblygu eu hymateb i luniau, geiriau a syniadau (S) Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)<br>**<u>Iaith:</u>** Cymryd rhan mewn chwarae rôl a gweithgareddau drama a chwarae dychmygus (Y) Mabwysiadu rôl, gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystum a lleferydd gan ddefnyddio iaith addas i'r rôl neu'r sefyllfa. (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif tuag at brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill. (S) |

© Primary Religious Education Support Service 02 / 2008

# Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn

*Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn* yw'r llyfr cyntaf mewn cyfres o lyfrau sy'n cyflwyno plant ifanc iawn i agweddau ar y ffydd Gristnogol. Cawsant eu cynllunio i ennyn diddordeb a deffro dychymyg plant drwy gyfrwng anturiaethau Pwllyn – cath ddireidus iawn.

Yn y llyfr cyntaf hwn, mae Pwllyn yn mwynhau chwarae gyda dail yr hydref, ond yn lle bodloni gyda chwarae tu allan, mae hi'n ymuno â chynulleidfa eglwys y Parchedig Pedr Puw ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch - a wedyn mae'r hwyl yn dechrau go iawn...

**Mae'r llyfr hwn yn berffaith ar gyfer cefnogi gwaith thema ar ddathliadau'r Cynhaeaf mewn ysgol neu ysgol feithrin.**

Mae'r llyfr hwn ar gael fel llyfr mawr yn Saesneg ac yn y Gymraeg..

Mae tegan meddal o Pwllyn hefyd ar gael i gyd-fynd â'r gyfres a bydd yn siwr o ddod yn anifail anwes y dosbarth! Soniwyd ei bod hi wedi mynd i'r eglwys ar benwythnosau gyda phlant unigol ac oedolion ac wedyn adrodd yn ôl i'r dosbarth hanes ei hanturiaethau!
Mae'r tegan meddal gwych o'r Parchedig Pedr Puw gyda phedair set o urddwisgoedd yn ddeniadol iawn. Adnodd delfrydol i gefnogi chwarae'r plant – byddan nhw wrth eu bodd yn ei wisgo!

# Gweithgareddau wedi eu ffocysu / Gwe Draws-Gwricwlaidd Darpariaeth Uwch

## Creadigol

**Creu darluniau o ddail yr hydref**: Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau (S)
Datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liw, llinell, graddliw, gwead, patrwm, siap a ffurf (S)
**Creu ardal chwarae- rôl eglwys**: Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S)
Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)
**Gwrando ar, a chanu, caneuon Cynhaeaf:** Canu ystod o ganeuon gydag eraill (S)
Gwrando ar, ac ymateb i, gerddoriaeth (S)

## Addysg Grefyddol

**Archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng gŵyliau mae pobl yn eu dathlu (Y)**
Archwilio sut a pham mae pobl yn y gymuned leol yn helpu eraill (Y)
**Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn (Y)**
Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)
Archwilio ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd (S)

## Corfforol

## Personol, Cymdeithasol, Lles a Diwylliannol

**Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol** ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)
**Datblygu ymdeimlad o berthyn fel rhan o wahanol gymunedau a chael dealltwriaeth o'u hunaniaeth eu hun (S)**
Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif tuag at brofiadau newydd ac at ddysgu (S)
Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S)
Arddangos gofal a pharch at eu hamgylchedd. (S)
Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a deall beth sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig (S)
Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)
Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed mewn storïau a chynnig ymatebion gwahanol. (S)
Ffurfio perthnas ag eraill a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd. (S)

Cyd-destun Dysgu / Thema:

**Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn**

Gan Gill Vaisey

## Mathemategol

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Mwynhau'r stori *Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn:***
Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)
Dilyn storïau a ddarllenir iddynt a mwynhau'r cynnwys (S)
Ymateb gan siarad am y cymeriadau, digwyddiadau, iaith a gwybodaeth wrth iddynt ragfynegi digwyddiadau ac archwilio ystyr (S)

## Cymraeg

Gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus addas (S)
**Gwrando ar y stori *Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn* yn cael ei darllen yn Gymraeg:**
Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S)
**Defnyddio'r geiriau Cymraeg am nodweddion yr eglwys fel y'u crybwyllir yn y stori.**
**Annog y defnydd o Gymraeg wrth chwarae rôl.**

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Casglu deunyddiau naturiol yr hydref**: Datblygu ymwybyddiaeth o, a gallu gwahaniaethu rhwng, gwrthrychau a wnaed gan ddyn a rhai naturiol. (Y)
Arbrofi gyda gwrthrychau bob dydd gwahanol a defnyddio'u synhwyrau i'w dosbarthu nhw i wahanol grwpiau yn ôl nodweddion syml (Y)
Adnabod yr effaith a gaiff gwahanol dymhorau ar rai anifeiliaid a phlanhigion. (Y)

# Awgrymiadau am Weithgareddau i'r Cyfnod Sylfaen
# gan ganolbwyntio ar Addysg Ddiwylliannol a Chrefyddol

**Themâu Cyffredinol Posibl:** **Gŵyliau; Bwyd; Yr Hydref; Lliwiau**

**Thema Add. Gref:** **Gŵyliau a Lleoedd Arbennig** **Adnodd Allweddol:** **Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn**

**RE Focus:** **Datblygu ymwybyddiaeth a mwynhad o weithgareddau eglwys a gŵyliau.**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn ymwneud â'r llyfr: **Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn**, gan Gill Vaisey

| Gweithgareddau | Add. Gref. a Meysydd Dysgu (2008) |
|---|---|
| Rhoi cyfle i blant gasglu dail yr hydref.<br><br>Eu hannog i archwilio a dosbarthu lliwiau, siapiau a gweadau. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**:<br>Datblygu ymwybyddiaeth o, a gallu gwahaniaethu rhwng, gwrthrychau a wnaed gan ddyn a rhai naturiol. (Y)<br>Arbrofi gyda gwrthrychau bob dydd gwahanol a defnyddio'u synhwyrau i'w dosbarthu nhw i wahanol grwpiau yn ôl nodweddion syml (Y)<br>**Lles:**<br>Arddangos gofal a pharch at eu hamgylchedd. (S)<br>Datblygu diddordeb cynhyddol yn y byd o'u cwmpas a deall beth sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig (S) |
| Ymestyn yr ardal gelf a chrefft gyda deunyddiau sy'n cynnig cyfleoedd i blant fod yn greadigol ac i gynhyrchu colláges a lluniau o ddail. | **Creadigol:** Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau (S)<br>Datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liw, llinell, graddliw, gwead, patrwm, siap a ffurf (S) |
| Annog y plant i gasglu deunyddiau naturiol er mwyn creu arddangosfa o'r hydref. | **Creadigol: :** Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau (S)<br>Datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liw, llinell, graddliw, gwead, patrwm, siap a ffurf (S) |
| Rhoi cyfleoedd i blant fynd tu allan ar ddiwrnod gwyntog i gael profiad uniongyrchol o wynt yn chwythu ac i gael profiad o ddail yn chwythu yn y gwynt. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**: Adnabod yr effaith a gaiff gwahanol dymhorau ar rai anifeiliaid a phlanhigion. (Y) |
| Darllen y llyfr *Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn* . Annog y plant i siarad am y stori yn enwedig esboniad y Parchedig Pedr Puw o'r Cynhaeaf .<br>Annog y plant i fyfyrio ar y rhesymau pam mae hi'n bwysig i rannu bwyd gyda rhai sy'n llai ffodus. Annog y plant i feddwl am y ffordd gwnaeth y Parchedig Pedr Puw ymateb i Pwllyn pan drawodd hi'r ffrwythau a'r llysiau i lawr a dymchwel y blodau (chwerthin yn hytrach na dwrdio). | **Add. Gref:** Archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng gŵyliau mae pobl yn eu dathlu (Y) Archwilio sut a pham mae pobl yn y gymuned leol yn helpu eraill (Y)<br>Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn (Y)<br>**Iaith…**: Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)<br>Dilyn storïau a ddarllenir iddynt a mwynhau'r cynnwys (S)<br>Ymateb gan siarad am y cymeriadau, digwyddiadau, iaith a gwybodaeth wrth iddynt ragfynegi digwyddiadau ac archwilio ystyr (S) |

| | |
|---|---|
| | **Moesol ac Ysbrydol:**<br>Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)<br>Cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wnaed mewn storïau a chynnig ymatebion gwahanol. (S) |
| Os yw'n bosibl, cynnig y cyfle i'r plant ymweld ag eglwys ac archwilio'r nodweddion arbennig y sonir amdanynt yn y llyfr.<br>Eu hannog i werthfawrogi bod rhai o'r gwrthrychau yn yr eglwys yn arbennig ac y dylid eu trin gyda pharch. | **Add. Gref:** Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn (Y)<br>Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)<br>Archwilio ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd (S)<br>**Personol:** Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif tuag at brofiadau newydd ac at ddysgu (S)<br>**Cymdeithasol:** Datblygu ymdeimlad o berthyn fel rhan o wahanol gymunedau a chael dealltwriaeth o'u hunaniaeth eu hun (S)<br>Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)<br>**Moesol ac Ysbrydol:**<br>Gofyn cwestiynau am sut a pham ddylai pethau arbennig gael eu trin gyda pharch, ac ymateb yn bersonol. (S) |
| Gwrando ar y stori *Cynhaeaf Gwlyb A Gwyntog Pwllyn* yn Gymraeg. | **Cymraeg:** Gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus addas (S) |
| Darparu deunyddiau a phropiau y gall plant eu defnyddio i greu ardal chwarae-rôl eglwys sy'n cynnwys rhai o'r nodweddion y sonir amdanynt yn y stori e.e. darllenfa i'r Beibl, pulpud, arddangosfa cynhaeaf. Dylid cynnwys y teganau meddal o Pwllyn a'r ficer er mwyn i'r plant gael chwarae rôl y stori.<br>Annog y plant i ddefnyddio'r termau Cymraeg am y nodweddion yn yr eglwys wrth chwarae rôl y stori. | **Add. Gref:** Archwilio ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd (S)<br>**Creadigol:** Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S)<br>Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)<br>**Personol:** Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif tuag at brofiadau newydd ac at ddysgu (S)<br>**Cymdeithasol:**<br>Ffurfio perthnas ag eraill a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd. (S)<br>**Cymraeg:** Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S) |
| Cynnig cyfle i'r plant wneud bara a rhannu bwyd gyda'i gilydd. Annog y plant i ddweud "os gwelwch yn dda" a "diolch" ac i fod yn ystyriol o'i gilydd. Ymestyn yr ardal gerddoriaeth gyda cherddoriaeth y Cynhaeaf. | **Creadigol:** Canu ystod o ganeuon gydag eraill (S)<br>Gwrando ar, ac ymateb i, gerddoriaeth (S) |
| Cynnig cyfle i'r plant wneud bara a rhannu bwyd gyda'i gilydd. Annog y plant i ddweud "os gwelwch yn dda" a "diolch" ac i fod yn ystyriol o'i gilydd.<br>Annog y plant i werthfawrogi'r bwyd a gânt i'w fwyta. | **Moesol ac Ysbrydol:** Gofyn cwestiynau am beth sy'n bwysig mewn bywyd o berspectif personol ac o berspectif pobl eraill (S) |

© Primary Religious Education Support Service GMV1/2008

# Pwllyn yn Rhoi Help Llaw

*Pwllyn yn Rhoi Help llaw* yw'r ail lyfr yn y gyfres hon sy'n cyflwyno disgyblion i agweddau o'r ffydd Gristnogol. **Mae'r llyfr hwn yn berffaith i gefnogi thema ar "Pobl sy'n ein Helpu".**

Yn y stori hon, gwelwn ein ffrind blewog yn gorffen ei hoff ginio. Gan chwilio am antur, fel arfer, penderfyna Pwllyn fynd i'r eglwys. Yno, mae'n cyfarfod â'r amrywiol gynorthwywyr eglwys sy'n brysur yn paratoi ar gyfer gwasanaeth y Sul… A fydd Pwllyn yn rhoi help llaw neu a fydd ei natur ddireidus yn profi i fod yn rwystr?

Mae'r testun hwn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg fel llyfr mawr neu lyfr diwyg safonol.
Peidiwch ag anghofio'r teganau meddal o Pwllyn a'r Pedr Puw ffantastig os nad ydyn nhw gyda chi eisioes!

# Gweithgareddau wedi eu ffocysu / Gwe Draws-Gwricwlaidd Darpariaeth Uwch

## Creadigol

Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S) Datblygu eu hymatebion i luniau, geiriau a syniadau (S) Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)
**Canu ystod o ganeuon gydag eraill (S)**

## Addysg Grefyddol

**Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. (Y)**
**Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn (Y)**
Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)
Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas (S)
Datblygu chwilfrydedd a dechrau gofyn cwestiynau am eu bywydau cartref nhw a rhai pobl eraill, ac am eu bywydau o fewn y gymuned (Y)
**Ymchwilio sut a pham mae pobl grefyddol yn y gymuned leol yn helpu eraill drwy'r gwaith maen nhw'n ei wneud (Y)**
Disgrifio beth maen nhw wedi ei ddarganfod am bobl, credoau a gweithgareddau (S) Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd (S)
Mynegi eu barn a'u teimladau eu hun, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwynt eraill. (S)
Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig (S)
Meddwl,a gofyn cwestiynau amdanynt eu hun ac am bobl eraill a gwrando ar atebion pobl eraill. (S)
Archwilio ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd (S)
**Ystyried y rheolau a'r côdau ymddygiad y maen nhw ac eraill yn eu dilyn ac sy'n eu llywio mewn bywyd bob dydd gartref ac yn yr ysgol (Y)**

## Corfforol

## Personol, Cymdeithasol, Lles a Diwylliannol

**Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol** ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)
**Datblygu ymdeimlad o berthyn fel rhan o wahanol gymunedau a chael dealltwriaeth o'u hunaniaeth eu hun (S)**
Bod yn ymwybodol o, a pharchu, anghenion eraill
Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hun (S)
Ystyried canlyniadau geiriau a gweithredoedd iddyn nhw eu hunain ac i eraill (S)
Datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau ymddygiad y lleoliad/ysgol a deall fod rheolau'n angenrheidiol mewn cymuned drefnus (S)
Datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn anheg a bod yn barod i gyfaddawdu (S)
Ffurfio perthnas ag eraill a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd. (S)
Gwerthfawrogi ffrindiau a theulu a dangos gofal ac ystyriaeth (S) Gwerthfawrogi'r hyn sy'n gwneud ffrind da (S)
**Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rôlau mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau (S)**
Dechrau cwestiynu sterioteipio (S)

Cyd-destun Dysgu / Thema:
**Pwllyn yn Rhoi Help Llaw**
Gan Gill Vaisey

## Mathemategol

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Mwynhau'r stori *Pwllyn yn rhoi Help Llaw***
Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)
Dilyn storïau a ddarllenir iddynt a mwynhau'r cynnwys (S)
Ymateb gan siarad am y cymeriadau, y digwyddiadau, yr iaith a'r wybodaeth wrth iddynt ragfynegi digwyddiadau ac archwilio ystyr (S)
**Cymryd rhan mewn chwarae-rôl a gweithgareddau drama a chwarae dychmygus (Y)**
Mabwysiadu rôl, gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystum a lleferydd gan ddefnyddio iaith addas i'r rôl neu'r sefyllfa. (S)

## Cymraeg

Gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus addas (S)
**Gwrando ar y stori *Pwllyn yn Rhoi Help Llaw* yn cael ei darllen yn Gymraeg:**
Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S)
**Defnyddio'r geiriau Cymraeg am nodweddion yr eglwys fel y'u crybwyllir yn y stori.**

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Dysgu am sut a pham mae pobl a lleoedd yn gysylltiedig (Y)**

# Awgrymiadau am Weithgareddau i'r Cyfnod Sylfaen
# gan ganolbwyntio ar Addysg Ddiwylliannol a Chrefyddol

**<u>Themâu Cyffredinol Posibl:</u> Pobl sy'n Ein Helpu; Helpu Eraill; Swyddi; Ein Hardal Leol; Mannau (Lleoedd) Arbennig**

**<u>Thema Add. Gref:</u> Pobl sy'n Ein Helpu** **<u>Adnodd Allweddol:</u> Pwllyn yn Rhoi Help Llaw**

**<u>Ffocws Add. Gref:</u> Datblygu ymwybyddiaeth o'r amrywiol ffyrdd y gall pobl helpu mewn eglwys ac o'r ddysgeidiaeth Gristnogol am helpu eraill.**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn ymwneud â'r llyfr: **Pwllyn yn Rhoi Help Llaw** Gan Gill Vaisey

| Gweithgareddau | Add. Gref. a Meysydd Dysgu (2008) |
|---|---|
| Annog y plant i siarad am, ac archwilio, sefyllfaoedd helpu, pwy sy'n helpu'r plant, a sut gallan nhw helpu ei gilydd. | **<u>Cymdeithasol:</u>** Bod yn ymwybodol o, a pharchu, anghenion eraill<br>Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hun (S)<br>Ystyried canlyniadau geiriau a gweithredoedd iddyn nhw eu hunain ac i eraill (S)<br>Datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau ymddygiad y lleoliad/ysgol a deall fod rheolau'n angehrheidiol mewn cymuned drefnus (S)<br>Datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn anheg a bod yn barod i gyfaddawdu (S)<br>Ffurfio perthynas ag eraill a theimlo'n hyderus i chwarae a gweithio ar y cyd. (S)<br>Gwerthfawrogi ffrindiau a theulu a dangos gofal ac ystyriaeth (S)<br>Gwerthfawrogi'r hyn sy'n gwneud ffrind da (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Ystyried y rheolau a'r côdau ymddygiad y maen nhw ac eraill yn eu dilyn ac sy'n eu harwain mewn bywyd bob dydd gartref ac yn yr ysgol (Y) |
| Archwilio'r gwahanol ffyrdd y gall pobl helpu eraill drwy'r gwaith maen nhw'n ei wneud. | **<u>Cymdeithasol:</u>** Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rôlau mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau (S)<br>Dechrau cwestiynu sterioteipio (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif i brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)<br>Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>Datblygu chwilfrydedd a dechrau gofyn cwestiynau am eu bywydau cartref nhw a rhai pobl eraill ac am eu bywydau o fewn y gymuned (Y)<br>Ymchwilio sut a pham mae pobl grefyddol yn y gymuned leol yn helpu eraill drwy'r gwaith maen nhw'n ei wneud (Y)<br>**<u>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd</u>**: Dysgu am sut a pham mae pobl a lleoedd yn gysylltiedig (Y) |

| | |
|---|---|
| Darllen y llyfr: *Pwllyn yn Rhoi Help Llaw*<br>Pwysleisio ac annog mwynhad o'r ymadroddion a ail-adroddir yn y llyfr.<br>Annog y plant i siarad am y stori a'r modd y llwyddodd Pwllyn i helpu'r gwahanol gymeriadau.<br>Siarad am y darlleniad o'r Beibl am helpu eraill gan y Parchedig Pedr Puw.<br>Annog y plant i adnabod y gwahanol ffyrdd y gwnaeth y cymeriadau yn y stori helpu yn yr eglwys.<br>Siarad am y ffordd mae'r Parchedig Pedr Puw yn helpu pobl i wybod mwy am sut mae Duw eisiau iddyn nhw fyw.<br>Gwahodd y plant i feddwl am gwestiynau yr hoffen nhw ofyn i'r cymeriadau yn y llyfr..<br>Gofyn i'r plant feddwl am y bobl sydd yn eu helpu nhw a sut gallan nhw helpu eraill. | **<u>Iaith:</u>** Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. (Y)<br>Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn. (Y)<br>Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)<br>Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>Datblygu chwilfrydedd a dechrau gofyn cwestiynau am eu bywydau cartref nhw a rhai pobl eraill, ac am eu bywydau o fewn y gymuned (Y)<br>Ymchwilio sut a pham mae pobl grefyddol yn y gymuned leol yn helpu eraill drwy'r gwaith maen nhw'n ei wneud (Y)<br>Disgrifio beth maen nhw wedi ei ddarganfod am bobl, credoau a gweithgareddau (S) Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd (S)<br>Mynegi eu barn a'u teimladau eu hun, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwynt eraill. (S)<br>Meddwl yn greadigol a dychmygus am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig (S)<br>Meddwl,a gofyn cwestiynau amdanynt eu hun ac am bobl eraill a gwrando ar atebion pobl eraill. (S)<br>**<u>Cymdeithasol:</u>** Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)<br>**<u>Moesol ac Ysbrydol:</u>** Cyfathrebu am beth sy'n dda a drwg, teg ac anheg, gofalgar ac anystyriol. (S)<br>**<u>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd</u>**:<br>Dysgu am sut a pham mae pobl a lleoedd yn gysylltiedig (Y) |
| Os yw'n bosibl, ymweld ag eglwys ac archwilio'r nodweddion arbennig y sonir amdanynt yn y llyfr. Cyfarfod rhai o'r bobl sy'n helpu yn yr eglwys. | **<u>Add. Gref:</u>** Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn (Y)<br>Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif i brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)<br>Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>Datblygu chwilfrydedd a dechrau gofyn cwestiynau am eu bywydau cartref nhw a rhai pobl eraill, ac am eu bywydau o fewn y gymuned (Y)<br>Ymchwilio sut a pham mae pobl grefyddol yn y gymuned leol yn helpu eraill drwy'r gwaith maen nhw'n ei wneud (Y)<br>**<u>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd</u>:** Dysgu am sut a pham mae pobl a lleoedd yn gysylltiedig (Y) |

| | |
|---|---|
| | **Cymdeithasol:** Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)<br>Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rôlau mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau (S)<br>Dechrau cwestiynu sterioteipio (S) |
| Os yw'n bosibl, darparu cyfle i'r plant gyfarfod â ficer / gweinidog lleol fydd yn gallu siarad â'r plant am y ffordd mae e / hi yn helpu pobl eraill. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**:<br>Dysgu am sut a pham mae pobl a lleoedd yn gysylltiedig (Y)<br>**Add. Gref:** Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif i brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)<br>Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas (S)<br>Datblygu chwilfrydedd a dechrau gofyn cwestiynau am eu bywydau cartref nhw a rhai pobl eraill, ac am eu bywydau o fewn y gymuned (Y)<br>Ymchwilio sut a pham mae pobl grefyddol yn y gymuned leol yn helpu eraill drwy'r gwaith maen nhw'n ei wneud (Y)<br>**Cymdeithasol:** Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rôlau mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau (S)<br>Dechrau cwestiynu sterioteipio (S) |
| Gwrando ar y stori *Pwllyn Yn Rhoi Help Llaw* yn cael ei darllen yn Gymraeg. | **Cymraeg:** Gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus addas (S) |
| Cynnig cyfle i'r plant greu ardal chwarae-rôl eglwys sy'n cynnwys rhai o'r nodweddion y sonir amdanynt yn y stori e.e. darllenfa i'r Beibl, pulpud, organ, bwrdd emynau, seddau (côrau). Cynnwys recordiad clywedol o glychau eglwys a rhai emynau. Cynnwys tun o bolish a lliain; blodau, llestr blodau a rhuban; taflenni cerddoriaeth ac organ (degan) / allweddellau; clychau a pheiriant torri lawnt tegan ar gyfer y fynwent.<br>Cynnwys y teganau meddal o Pwllyn a'r Parchedig Pedr Puw fel bod y plant yn gallu chwarae-rôl y stori.<br>Defnyddio "Rota'r Helpwyr Eglwys" i'r plant gael ysgrifennu neu ludio'u henwau gyferbyn â'r rôl yr hoffen nhw ymgymryd â hi.<br>Annog y plant i ddefnyddio'r termau Cymraeg am nodweddion yr eglwys yn eu chwarae-rôl. | **Creadigol:** Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S)<br>Datblygu eu hymatebion i luniau, geiriau a syniadau (S)<br>Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)<br>**Iaith:** Cymryd rhan mewn chwarae rôl a gweithgareddau drama a chwarae dychmygus (Y)<br>Mabwysiadu rôl, gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystum a lleferydd gan ddefnyddio iaith addas i'r rôl neu'r sefyllfa. (S)<br>**Add. Gref:** Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif i brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)<br>**Cymraeg**: Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S) |
| Cynnig cyfle i'r plant ddysgu a chanu rhai caneuon syml am helpu eraill. | **Creadigol:** Canu ystod o ganeuon gydag eraill (S) |

# Puddles and the Christmas Play
# (Pwllyn a'r Ddrama Nadolig)

*Puddles and the Christmas Play* yw'r drydedd antur ddymunol gyda Pwllyn ddireidus.  Stori wych i'w rhannu yn ystod cyfnod Adfent gan fod cannwyll newydd yn cael ei chynnau ar y dorch Adfent bob wythnos.

Mae Pwllyn yn mwynhau mynd i'r Ysgol Sul gyda'r plant.
Pan benderfynan nhw eu bod yn mynd i berfformio drama i'r oedolion, mae Pwllyn yn gyffrous ac yn meddwl tybed pa ran gaiff hi yn y ddrama.
Pan ddywed athro'r ysgol Sul wrthi "ond does dim cathod yn y ddrama Nadolig", teimla Pwllyn yn drist a siomedig.
Ond nid yw popeth yn mynd fel y dylai ac mae Pwllyn yn gweld ei chyfle i achub y dydd……

Mae'r testun hwn ar gael yn Saesneg mewn diwyg llyfr mawr.
Mae'r teganau meddal o Pwllyn a'r Parchedig Pedr Puw gwych yn angenrheidiol i gydfynd â'r stori.

# Gweithgareddau wedi eu ffocysu / Gwe Draws-Gwricwlaidd Darpariaeth Uwch

## Creadigol
**Gwneud cardiau Nadolig**
Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau (S)
Datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liw, llinell, graddliw, gwead, patrwm, siap a ffurf (S)
**Creu eglwys/ardal chwarae- rôl Gŵyl y Geni**: Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S)
Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)
**Gwrando ar, a chanu, caneuon Nadolig:** Canu ystod o ganeuon gydag eraill (S)
Gwrando ar, ac ymateb i, gerddoriaeth (S)
**Gwneud / bwyta bwydydd Nadolig**

## Personol, Cymdeithasol, Lles a Diwylliannol
**Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol** ac anghenion, barn a chredoau amrywiol bobl yn eu diwylliant eu hun a diwylliant pobl eraill (S)
**Datblygu ymdeimlad o berthyn fel rhan o wahanol gymunedau a chael dealltwriaeth o'u hunaniaeth eu hun (S)**
**Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rôlau mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau (S)**
Dechrau cwestiynu sterioteipio (S)

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
**Mwynhau'r stori** ***Puddles and the Christmas Play***
**Gwrando ar stori'r Geni'n cael ei darllen o Feibl i blant bach**
Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)
Dilyn storïau a ddarllenir iddynt a mwynhau'r cynnwys (S)
Ymateb gan siarad am y cymeriadau, digwyddiadau, iaith a gwybodaeth wrth iddynt ragfynegi digwyddiadau ac archwilio ystyr (S)
**Cymryd rhan mewn chwarae rôl a gweithgareddau drama a chwarae dychmygus (Y)**
Mabwysiadu rôl, gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystum a lleferydd gan ddefnyddio iaith addas i'r rôl neu'r sefyllfa. (S)

## Addysg Grefyddol
**Mwynhau'r stori** ***Puddles and the Christmas Play***.
**Clywed stori'r Geni.**
Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. (Y)
**Darganfod sut mae'r Nadolig yn cael ei ddathlu yn yr eglwys mae Pwllyn yn mynd iddi**
Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn (Y)
Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)
Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas (S)
Datblygu chwilfrydedd a dechrau gofyn cwestiynau am eu bywydau cartref nhw a rhai pobl eraill, ac am eu bywydau o fewn y gymuned (Y) Disgrifio beth maen nhw wedi ei ddarganfod am bobl, credoau a gweithgareddau (S) Deall y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd (S) Mynegi eu barn a'u teimladau eu hun, a gwneud penderfyniadau tra'n ystyried safbwynt eraill. (S) Archwilio ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd (S) **Archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng cartrefi, dillad, bwyd, gŵyliau a ffyrdd o fyw pobl**

Cyd-destun Dysgu / Thema:

**Puddles and the Christmas Play**

Gan Gill Vaisey

## Mathemategol
**Gwneud / defnyddio siart dathliadau**
Dangos data a gasglwyd (S)
**Dosbarthu ystod o gardiau Nadolig**

## Corfforol

## Cymraeg
Defnyddio iaith addas mewn gweithgareddau chwarae digymell a gweithgareddau chwarae strwythredig ac wrth gyfleu ystyr.(S)

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
**Dosbarthu'r lluniau i adnabod nodweddion gwahanol dymhorau.**
Anabod effaith gwahanol dymhorau..(Y)
**Adnabod fod (rhai) Cristnogion yn mynd i eglwys/gapel**
**Dysgu am sut a pham mae pobl a lleoedd yn gysylltiedig (Y)**

# Awgrymiadau am Weithgareddau i'r Cyfnod Sylfaen
# gan ganolbwyntio ar Addysg Ddiwylliannol a Chrefyddol

**Themâu Cyffredinol Posibl:** **Gaeaf; Tymhorau; Dathliadau; Nadolig; Goleuni**

**Thema Add. Gref:** **Geni'r Iesu** **Adnodd Allweddol:** **Puddles and the Christmas Play**

**Ffocws Add. Gref:** **Dod yn gyfarwydd gyda stori'r Geni a'r ffordd y mae rhai eglwysi'n dathlu geni'r Iesu**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn ymwneud â'r llyfr: **Puddles and the Christmas Play**, gan Gill Vaisey
(**DS** Efallai na fydd rhai o'r gweithgareddau sy'n cysylltu'n agos gyda dathlu'r Nadolig (.e.e. gwneud cardiau, torchau Adfent a.y.y.b.) yn addas ar gyfer pob plentyn oherwydd ei gefndir crefyddol – efallai bydd gweithgareddau sy'n cydnabod a dathlu gwerth bywyd teuluol yn fwy derbyniol).

| Gweithgareddau | Add. Gref. a Meysydd Dysgu (2008) |
|---|---|
| Defnyddio ffotograffau a lluniau i ddangos agweddau o wahanol dymhorau. Annog disgyblion i ddosbarthu'r lluniau i adnabod nodweddion gwahanol dymhorau. | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**:<br>Anabod effaith gwahanol dymhorau..(Y) |
| Drwy ddefnyddio "siart dathliadau" sy'n dangos holl fisoedd y flwyddyn, annog disgyblion i adnabod achlysuron arbennig ac ym mha fis(oedd) y maent yn cymryd lle e.e. penblwyddi, penblwyddi priodas rhieni, gŵyliau. | **Mathemategol** Cynrychioli data a gasglwyd yn wreiddiol drwy ddefnyddio gwrthrychau go iawn, lluniau (neu ddiagramau), a symud ymlaen i amrywiaeth o siartiau syml…(Y) |
| Trafod gyda'r plant a gwneud diagram pry copyn o'r holl bethau a wyddant am yr hyn sy'n digwydd adeg Nadolig. Gellir defnyddio amrywiaeth o artiffactau fel gweithgaredd ysgogi a dosbarthu. | **Mathemategol:** Cynrychioli data a gasglwyd yn wreiddiol drwy ddefnyddio gwrthrychau go iawn, lluniau (neu ddiagramau), a symud ymlaen i amrywiaeth o siartiau syml…(Y)<br>**Add. Gref:** Archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng cartrefi, dillad, bwyd, gŵyliau a ffyrdd o fyw pobl (Y)<br>Meddwl am, a gofyn cwestiynau amdanynt eu hunain ac am bobl eraill a gwrando ar atebion (S)<br>Ymateb i'w syniadau eu hunain, a rhai pobl eraill, gan gynnwys eu dyheuadau, eu breuddwydion, eu barn a'r ffyrdd y maent yn wynebu cyfnodau hapus a thrist (S)<br>Gwneud cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau mewn hunaniaeth, ffordd o fyw, cymuned a thraddodiad (S)<br>Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S) |

| | |
|---|---|
| Cyflwyno stori *Puddles and the Christmas Play* a nodi ym mha dymor a mis mae'r Nadolig yn cael ei ddathlu. Helpu'r plant i adnabod i ba grwp o bobl y mae arwyddocâd crefyddol y Nadolig yn bwysig (h.y. Cristnogion). | **<u>Add. Gref:</u>** Archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng cartrefi, teuluoedd, dillad, bwyd, gŵyliau a ffyrdd o fyw pobl (Y)<br>Meddwl am, a gofyn cwestiynau amdanynt eu hunain ac am bobl eraill a gwrando ar atebion (S)<br>Gwneud cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau mewn hunaniaeth, ffordd o fyw, cymuned a thraddodiad (S)<br>Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif i brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S) |
| Arddangos torch Adfent tra'n darllen y stori *Puddles and the Christmas Play*. Gall un plentyn osod cannwyll ar y dorch yn y drefn gywir wrth i'r stori ddatblygu. | **<u>Mathemategol</u>: :** Datblygu diddordeb mewn rhifau (Y)<br>Datblygu eu hiaith Fathemategol… (S)<br>**<u>Iaith…</u>**: Cael profiad o, ac ymateb i, storïau o ystod o ddiwylliannau (Y)<br>**<u>Add. Gref:</u>** Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. (Y)<br>Darganfod beth sy'n digwydd mewn lleoedd o addoliad a pham mae pobl yn mynd i'r lleoedd hyn (Y) |
| Rhannu stori'r geni gyda'r plant o fersiwn o'r Beibl i blant bach. | **<u>Add. Gref:</u>** Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai storïau i rai pobl <u>(Y)</u><br>Mwynhau ystod o storïau a hanesion o wahanol draddodiadau a diwylliannau ffydd. (Y)<br>Darganfod gwybodaeth am bobl yn y gorffennol a pham y cânt eu cofio. (Y) |
| Trafod gyda'r plant bwysigrwydd y Nadolig i Gristnogion (h.y. adeg i gofio pryd ganwyd Iesu -eu hathro arbennig a'r un maen nhw'n gredu yw mab Duw). | **<u>Add. Gref:</u>** Gwerthfawrogi pwysigrwydd rhai storïau i rai pobl <u>(Y)</u><br>Meddwl am, a gofyn cwestiynau amdanynt eu hunain ac am bobl eraill a gwrando ar atebion (S)<br>Ymateb i'w syniadau eu hunain, a rhai pobl eraill, gan gynnwys eu dyheuadau, eu breuddwydion, eu barn a'r ffyrdd y maent yn wynebu cyfnodau hapus a thrist (S)<br>Gwneud cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau mewn hunaniaeth, ffordd o fyw, cymuned a thraddodiad (S)<br>Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S) |
| Cynnig cyfle i'r plant ddosbarthu ystod o gardiau Nadolig ac i adnabod y rhai sy'n dangos agwedd grefyddol y Nadolig ( yn hytrach na dynion eira, coed a.y.y.b.) | **<u>Mathemategol</u>:** Datblygu eu hiaith Fathemategol… (S)<br>**<u>Add. Gref:</u>** 'Disgrifio'r hyn maen nhw wedi ei ddarganfod am y Nadolig a chynnig esboniadau syml. (S) |

| | |
|---|---|
| Ymestyn yr ardal gelf a chrefft gyda deunyddiau sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gynllunio a chreu cerdyn Nadolig. | **Creadigol:** Gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau (S)<br>Datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liw, llinell, graddliw, gwead, patrwm, siap a ffurf (S)<br>**Creadigol:** Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y) |
| Darparu deunyddiau er mwyn i'r plant gael bod yn greadigol a gwneud eu torch Adfent eu hunain. | **Creadigol:** Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)<br>Cael profiad o gelf a chrefft o Gymru ac o draddodiadau eraill. (Y) |
| Cynnig cyfleoedd i'r plant glywed carolau Nadolig. | **Creadigol:** Gwrando ar, ac ymateb i, gerddoriaeth (S)<br>Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y)<br>Cael profiad o gerddoriaeth o Gymru ac o draddodiadau eraill. (Y) |
| Dysgu a chanu caneuon Nadolig sy'n addas ar gyfer yr ystafell ddosbarth (yn hytrach na chyd-addoliad). | **Creadigol:** Canu ystod o ganeuon gydag eraill. (S)<br>Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y) |
| Gwneud / rhannu bwydydd Nadolig – teisen, mins peis (teisennau briwdda) | **Add. Gref:** Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau positif wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill (S)<br>**Creadigol:** Cael profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau (Y) |
| Annog y plant i greu chwarae-rôl mewn eglwys wedi ei seilio ar y llyfr a / neu llwyfan a gwisgoedd ar gyfer drama'r Nadolig. | **Creadigol:** Gweithio ar eu pen eu hun a gydag eraill i ffugio (smalio), dyfeisio (addasu) a meddwl yn ddychmygus (S)<br>Datblygu eu hymatebion i luniau, geiriau a syniadau. (S)<br>**Iaith:** Cymryd rhan mewn chwarae rôl a gweithgareddau drama a chwarae dychmygus. (Y)<br>Mabwysiadu rôl, gan wneud defnydd ymwybodol o symudiadau, ystum a lleferydd gan ddefnyddio iaith addas i'r rôl neu'r sefyllfa. (S) |

# Adnoddau Addysg Grefyddol

**Defnyddio teganau meddal Pwllyn a'r Parchedig Pedr Puw gyda'r disgyblion ieuengaf**

**Pwllyn fel "anifail anwes y dosbarth":** Rhowch y cyfrifoldeb o sicrhau ei bod yn cael bwyd a dŵr bob dydd i'r plant. Darparwch fasged cath iddi. Gwnewch yn siwr ei bod yn cael llawer o anwesiadau drwy gydol y dydd. Gellid cynnig Pwllyn fel cysurwr os yw hynny'n addas.

**Ymweliadau Penwythnos:** Caniatewch i Pwllyn fynd adref gyda phlant ar y penwythnosau. Gall hi wedyn ddod nôl i'r ysgol ac adrodd hanes ei hanturiaethau wrth weddill y dosbarth. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai Pwllyn yn gallu mynd gyda phlentyn neu aelodau o staff sy'n mynychu gwasanaeth eglwys / capel, priodas, bedydd a.y.y.b. Gallai Pwllyn ddychwelyd i'r ysgol wedyn i siarad am ei phrofiadau a dangos ffotograffau a dynwyd.

**Ymweld ag Eglwys:** Ewch â Pwllyn gyda'r dosbarth i ymweld ag eglwys leol. Gall y plant archwilio'r nodweddion y soniwyd amdanynt yn y llyfr, gyda Pwllyn – y drws bwa mawr mae hi'n cerdded trwyddo, y pulpud mae hi'n ei ddringo, y seddi mae hi'n eistedd arnynt, yr organ mae hi'n helpu i'w chwarae, y rhaffau cloch mae hi'n siglo arnynt a.y.y.b. Gall Pwllyn weithredu fel ysgogiad i archwilio nodweddion eraill a'r ffordd y maen nhw'n cael eu defnyddio – "beth ydyn ni'n feddwl byddai hi'n hoffi darganfod?"

***Cornel Chwarae-Rôl:*** Gadewch i'r plant weithio gyda'r athro/athrawes wrth baratoi'r ardal chwarae-rôl mewn eglwys. Archwiliwch y llyfrau i weld pa nodweddion ddylai fod yn yr "eglwys" e.e. seddi, organ (allweddellau plentyn), pulpud, táp / CD o glychau eglwys. Gwnewch "ddrws bwa mawr" fel mynedfa. Ychwanegwch y Parchedig Pedr Puw a Pwllyn y gath fel bod y plant yn gallu chwarae-rôl y digwyddiadau yn y storiau a mwynhau chwarae creadigol.

**Gwisgo Pedr Puw:** Caniatewch i'r plant wisgo Pedr Puw yn ei urddwisgoedd ac anogwch nhw i baru lliwiau'r casuliau a'r stolâu.

**Ymweliad gan y Ficer lleol:** Gwahoddwch y Ficer lleol i siarad â'r plant am ei b/phrofiadau o'r themâu a archwiliwyd yn y llyfrau. Gallai e/hi ddod â'i g/wisgoedd arbennig (urddwisgoedd) i'w dangos i'r plant ac i siarad am ei hoff liwiau a'i hoff dymhorau.

**Sedd Boeth:** Defnyddiwch y Parchedig Pedr Puw fel cymeriad i'r "sedd boeth". Dylai'r disgyblion feddwl am gwestiynau i'w gofyn i Pedr Puw. Gallai un plentyn fod yn llais Pedr Puw yn ateb cwestiynau'r disgyblion eraill.

**FFURFLEN ARCHEBU – Postiwch, ebostiwch, ffacsiwch neu ffoniwch eich archeb os gwelwch yn dda.**

**Books @ Press** **Gill Vaisey, 7, Butlers Mead, Millend, Blakeney, Gloucestershire. GL15 4EH**

Ffôn: / Ffacs: 01594 516490 ebost: booksatpress@hotmail.com www.booksatpress.co.uk

Enw: …………………………………… Rhif Archeb: ……………….……………
Ysgol / Cylch Meithrin / AALl: ………………………………………………………………………..

Cyfeiriad:………………………………………………………………………………………..Côd Post………………..
Rhif Ffôn:……………..……………………ebost:……………………..………………………………

| Adnodd | Nifer | Pris | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **A Wet and Windy Harvest for Puddles:** Big book | | £13.99 | |
| **Cynhaeaf Gwlyb a Gwyntog Pwllyn:** Llyfr Mawr | | £13.99 | |
| **Puddles Lends A Paw:** Big book | | £13.99 | |
| **Pwllyn Yn Rhoi Help Llaw:** Llyfr Mawr | | £13.99 | |
| **Puddles Lends A Paw:** Standard size book | | £6.99 | |
| **Pwllyn Yn Rhoi Help Llaw:** Llyfr Diwyg Safonol | | £6.99 | |
| **Puddles and the Christmas Play:** Big book | | £13.99 | |
| **Tegan Meddal Pwllyn:** (30cm) Cath tegan medal | | £9.99 | |
| **Y Parchedig Pedr Puw ac urddwisgoedd:** (ficer yn sefyll 43cm, 1 gwenwisg, 4 set o stolâu gwahanol liw a chasuliau, adnoddau athrawon AM DDIM) | | £39.99 | |
| **The Tiny Ants:** Big book and resource pack | | £30.99 | |
| **The Tiny Ants:** Standard size book | | £5.99 | |
| **Seven New Kittens:** Big Book and resource pack | | £30.99 | |
| **Seven New Kittens:** Standard size book | | £5.99 | |
| **The Baby Birds** Standard size book and CD Rom with two versions of **Yr Adar Bach in Welsh** | | £12.99 | |
| **Yr Adar Bach** Llyfr maint safonol a CD Rom gyda dau fersiwn o'r stori yn Gymraeg | | | |
| **Pypedau llaw a bysedd o'r Adar bach gyda nyth-fag** | | £34.99 | |
| Cyfanswm Cost yr Archeb | | | £ |
| TAW(ar y gath, y ficer a'r pypedau adar yn unig) | | | £ |
| Postio a Phacio : Bydd y gost fwyaf darbodus am bostio a phacio'n cael ei hychwanegu at eich anfoneb. Os hoffech amgau eich siec, gofynnwch am y P& P drwy ffonio neu ymweld â'n gwefan. | | | £ |
| Siec yn amgaeëdig ac yn daladwy i **Gill Vaisey.** | | | £ |
| Anfonwch anfoneb am y cyfanswm sy'n ddyledus, os gwelwch yn dda. | | | £ |